WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

2007/2008

Mehefin 2008

Awdur: Rob Powell a John Weston Cyf: 555A2008

# Asesiad Risg ar y Cyd

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Yn ogystal ag amlygu nifer o feysydd lle y bu gwelliant, mae'r Asesiad Risg ar y Cyd wedi'i diweddaru yn amlygu nifer o flaenoriaethau gweithredol ac anweithredol allweddol a ddylai gefnogi ymdrechion yr Awdurdod i leihau'r nifer fawr o farwolaethau oherwydd damweiniau tân, yn enwedig yr angen i ategu'r weledigaeth strategol â chamau gweithredu i ategu'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Lleihau Risg.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| Nododd yr asesiad gweithredol welliannau, ond hefyd amlygodd risgiau allweddol mewn perthynas â'r nifer fawr o farwolaethau oherwydd damweiniau tân, dadansoddi risg, amgylchiadau llif a pholisïau gweithredol | 5 |
| Mae angen i'r Awdurdod ddatblygu a darparu cyfeiriad teithio clir i fynd i'r afael â'r heriau gweithredol, ariannol a sefydliadol y mae'n eu hwynebu | 8 |

## Statws y ddogfen hon

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (Tân) drwy arolygu'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Cynhelir yr arolygiad hwn ar ffurf asesiad gweithredol, a gynhelir gan Dîm Asesu Cymheiriaid yr arsylwir arno gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac asesiad anweithredol a gynhelir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r broses hon yn arwain at Asesiad Risg ar y Cyd y cytunir arno gan Swyddfa Archwilio Cymru, y Tîm Asesu Cymheiriaid a swyddogion y Gwasanaeth Tân ac Achub. Caiff yr Asesiad Risg ar y Cyd ei ddiweddaru bob blwyddyn ac mae'n llywio'r gwaith rheoliadol − archwilio ac arolygu − a gyflawnir.
2. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion allweddol sydd wedi codi o'r Asesiad Risg ar y Cyd wedi'i ddiweddaru rydym wedi'i ddatblygu'n ddiweddar gyda'ch swyddogion. Mae hyn yn diweddaru'r Asesiad Risg ar y Cyd a gyflwynwyd i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin 2007. Roedd y gwaith a gyflawnwyd yn archwilio'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf ac fe'i llywiwyd hefyd gan asesiad gweithredol thematig, a oedd yn ystyried parodrwydd y Gwasanaethau Tân ac Achub ar gyfer digwyddiadau sy'n amharu llawer, gan ganolbwyntio'n benodol ar lifogydd ar raddfa fawr.
3. Dylai'r risgiau a'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd drwy broses yr Asesiad Risg ar y Cyd lywio Cynllun Gwella blynyddol a Chynllun Gweithredu Lleihau Risg yr Awdurdod, yn ogystal â llywio'r broses o bennu gwaith archwilio ac arolygu drwy gytuno ar y Cynllun Rheoliadol y byddwn yn ei drafod â swyddogion a'i gyflwyno i'r Awdurdod.
4. Mae'r Asesiad Risg ar y Cyd wedi'i ddiweddaru yn amlygu nifer o flaenoriaethau gweithredol ac anweithredol allweddol a ddylai gefnogi ymdrechion yr Awdurdod i leihau'r nifer fawr o farwolaethau oherwydd damweiniau tân, yn enwedig yr angen i ategu'r weledigaeth strategol â chamau gweithredu i ategu'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Lleihau Risg.
5. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau lefel uchel yr Asesiad Risg ar y Cyd ac nid yw'n rhestr drwyadl o bob risg sy'n wynebu'r Awdurdod. Nodir y canfyddiadau manwl yn y Templed Asesu Risg a fydd ar gael i aelodau ar ffurf electronig. Efallai y bydd aelodau'n dymuno edrych ar y Templed Asesu Risg i gael rhagor o wybodaeth a manylion. Mae'r Templed Asesu Risg yn categoreiddio'r risg gynhenid a lefel y risg weddilliol ym mhob maes o fframwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, gan ddefnyddio'r categorïau risg uchel/canolig ac isel a drafodwyd ac y cytunwyd arnynt ag uwch swyddogion.
6. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i ddiweddaru'r Asesiad Risg ar y Cyd yn flynyddol, a bydd yn gweithio gyda swyddogion ac aelodau i hyrwyddo gwella. Bwriedir i'r adroddiad nodi rhai o'r materion allweddol ar gyfer yr Awdurdod newydd mewn ffordd a fydd yn helpu Aelodau a swyddogion i weithredu eu Cynlluniau Lleihau Risg a Chynlluniau Gwella ac i wella diogelwch tân yng Ngogledd Cymru.

## Nododd yr asesiad gweithredol welliannau, ond hefyd amlygodd risgiau allweddol mewn perthynas â'r nifer fawr o farwolaethau oherwydd damweiniau tân, dadansoddi risg, amgylchiadau llif a pholisïau gweithredol

7. Mae'r Asesiad Risg ar y Cyd yn amlygu nifer o feysydd o gynnydd a nodwyd gan yr asesiad gweithredol:
   - Dadansoddi risg a datblygu rheolaethau drwy'r Fforwm Lleihau Risg, dyrannu risgiau i uwch swyddogion a chyflwyno adroddiadau i'r Prif Swyddog i gefnogi'r broses o weithredu adroddiad y Grŵp Gorchwyl, a chynnwys aelodau mewn Cynllunio Lleihau Risg.
   - Mae'r Awdurdod yn chwarae rhan allweddol yn Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ac yn gweithio i wella ymhellach ei ddulliau cyfathrebu â diffoddwyr tân a gorsafoedd tân unigol o ran materion sy'n ymwneud â chadernid lleol.
   - Gwnaed cynnydd o ran poblogi model Trefniadau Argyfwng y Gwasanaeth Tân (FSEC).
   - Datblygwyd polisi Rheoli Parhad Busnes cyffredinol ac mae'r broses o'i weithredu yn mynd rhagddo; gwnaed cynnydd o ran Argyfyngau Sifil Posibl: yr Awdurdod yw'r asiantaeth arweiniol yng Ngogledd Cymru o ran digwyddiadau Cemegol, Biolegol, Ymbelydrol a Niwclear, ac arweiniodd y gwaith o ddatblygu cynllun ymateb aml-asiantaeth â'i bartneriaid.
   - Bydd ystafell reoli ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru yn agor yn ddiweddarach eleni a fydd yn ddull gweithredu unigryw; er bod hyn o bosibl yn gam mawr ymlaen, bydd angen i'r Awdurdod reoli'n ofalus unrhyw risgiau sy'n codi o'r cyfnod 'ymsefydlu' anochel ar gyfer y trefniadau newydd.
   - Canfu'r Tîm Asesu Cymheiriaid fod y Gwasanaeth wedi 'dangos drwy ei holl weithgareddau ddymuniad cryf i ddysgu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd. Ceir tystiolaeth glir i ddangos bod y gwasanaeth yn ymateb i ddigwyddiadau critigol mewn mannau eraill ac yn gweithredu newidiadau priodol mewn modd amserol.' Mae'r Gwasanaeth wedi dechrau rhaglen o archwiliadau o orsafoedd sy'n cynnwys her cymheiriaid.
8. Yn ogystal nododd y diweddariad o'r Asesiad Risg ar y Cyd a gwaith ar lifogydd nifer o risgiau allweddol a oedd â naill ai lefel uchel neu lefel ganolig o risgiau gweddilliol a nodir yn Arddangosyn 1.

**Arddangosyn 1: prif risgiau o'r asesiad gweithredol**

| Agwedd | Digrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau lleihau risg | Lefel y risg gynhenid/ risg weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| Dadansodd i risg | Nododd Tîm PAT y canlynol: Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ac yn rheoli risgiau i'r sefydliad drwy ei fforwm lleihau risg. Mae hyn, ynghyd â strwythur sefydliadol clir yn sicrhau y caiff risg ei nodi a'i rheoli ar lefel briodol. Mae gan y gwasanaeth Gynllun Lleihau Risg sy'n nodi ei flaenoriaethau yn glir o ran datblygu cadernid Cymunedol ac yn fwy hanfodol cadernid darparu gwasanaethau. Ceir tystiolaeth glir bod yr Awdurdod Tân Cyfunedig wedi bod yn ymwneud â'r broses o weithredu mesurau lleihau risg. | Methiant i ddiweddaru 'r gofrestr risg. | Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu dull o reoli risgiau, yn cynnwys canolbwyntio ar astudiaethau cynharach a'r risgiau a nodwyd gan y rhain. Mae'r dull yn ymgorffori'r adolygiad cymheiriaid gweithredol diwethaf ac Adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân. Dyrannwyd camau gweithredu penodol i uwch swyddogion a rhaid iddynt gyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Prif Swyddog Tân. | Uchel/ Canolig |
| Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog | Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog: Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân i adolygu'r cynnydd sylweddol yn nifer y marwolaethau oherwydd damweiniau tân. Cadeiriwyd y grŵp gan y Prif Swyddog Tân ac roedd hefyd yn cynnwys Prif Gwnstabl Gogledd Cymru a Phrif Weithredwr Sir y Fflint. | Risg bosibl o ran gallu ac adnoddau i gyflawni'r amcanion sy'n codi o Dasglu'r Prif Swyddog Tân | Mae'r camau gweithredu a nodwyd yn Adolygiad Cymheiriaid y llynedd ac adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân yn cael eu gweithredu. Mae gan y Prif Swyddog Tân reolaeth gyffredinol dros y broses hon ac mae'n cael adroddiadau cynnydd rheolaeth gan reolwyr. | Uchel |

| Agwedd | Digrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau lleihau risg | Lefel y risg gynhenid/ risg weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| Cudd-wybodaeth weithredol | Nododd Tîm PAT 2008 y canlynol: Cydnabyddir y bydd datblygiad pellach y prosiect cudd-wybodaeth weithredol yn rhoi mwy o wybodaeth risg gyfredol a phenodol i'r staff hyn; er bod datblygiadau yn y maes hwn wedi'u llesteirio gan ddiffyg datrysiad data symudol. Mae angen i'r Gwasanaeth adolygu digwyddiadau diweddar yn cynnwys marwolaethau diffoddwyr tân ac mae angen mabwysiadu dull dysgu gwersi | Risg bosibl na fydd gwybodaeth weithredol ar gael i ddiffoddwyr tân | Cyn derbyn unrhyw ganfyddiadau ffurfiol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mae'r Gwasanaeth wedi adolygu ei systemau yn llawn ar gyfer casglu a dosbarthu gwybodaeth risg ar safleoedd 7.2(d) gwybodaeth. | Uchel/ Canolig |
| Polisi amgylchiadau llif | Nododd Tîm PAT 2008 y canlynol: Mae polisi amgylchiadau llif ar waith, a ddilyswyd yn weithredol, a bydd y gwaith modelu risgiau adnoddau a gynhaliwyd yn ategu hyn ymhellach. | Methiant i gynnal yr ymateb gweithredol yn ystod yr adegau lle y ceir y galw mwyaf | Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal ymarfer cynllun gorsafoedd allweddol i sicrhau y gall y gwasanaeth ymateb o dan amgylchiadau eithafol pan mai dim ond nifer fach o orsafoedd a fyddai ar gael. | Uchel/ Canolig |
| Poisiau gweithredol ar gael ar leooliad y digwyddiad | Nododd Tîm PAT 2007 y canlynol: Polisïau Gweithredol: Mae cyfres o bolisïau gweithredol ar gael i'r holl bersonél yn electronig. Fodd bynnag, byddai'n fanteisiol i'r Gwasanaeth adolygu'r polisïau hyn er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ac i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldebau. Byddai'r Gwasanaeth hefyd yn cael budd o system sy'n sicrhau bod personél yn defnyddio polisïau gweithredol ac yn eu deall. Mae cymhorthion cof gweithredol ar gael i'r holl bersonél gweithredol a chaiff y rhain eu diweddaru'n rheolaidd. | Potensial ar gyfer aneffeithlonrwydd/ gwallau gweithredol oherwydd gweithio yn unol â pholisïau na chânt eu diweddaru | Nododd Tîm PAT 2007 y canlynol: Mae angen gwaith pellach i sicrhau bod data risg cyfredol, yn cynnwys gwybodaeth 7.2(d), ar gael yn gyson yn lleoliad y digwyddiad. Eir i'r afael â hyn. | Uchel |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Templed Asesiad Risg*.

9. Yn amlwg, y flaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod fydd gweithredu argymhellion Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog i leihau nifer y marwolaethau oherwydd damweiniau tân, sef un o'r lefelau uchaf ymhlith yr holl Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru neu Loegr[1]. Mae Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod yn nodi nifer o gamau gweithredu y bydd eu hangen i hyrwyddo diogelwch tân ac osgoi tanau mewn cymunedau risg uchel. Mae'r asesiad anweithredol yn cysylltu'n uniongyrchol â hyn oherwydd anawsterau'r Awdurdod i gefnogi elfennau allweddol y Cynllun Lleihau Risg (gweler paragraff 12 hefyd), a allai beryglu ymdrechion i fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd gan Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog, sef y rheswm am y lefel uwch o risgiau gweddilliol nag yn Asesiad Risg ar y Cyd y llynedd. Yn amlwg, lleihau nifer y marwolaethau oherwydd damweiniau tân drwy hyrwyddo diogelwch tân a thargedu gweithgareddau ataliol yn effeithiol yw'r brif flaenoriaeth i'r Awdurdod.

10. Er y bydd yn anochel mai lleihau nifer y marwolaethau oherwydd damweiniau tân fydd y prif ffocws o hyd, mae angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â'r risgiau gweithredol allweddol canlynol hefyd:

- golyga'r nifer bresennol o farwolaethau oherwydd damweiniau tân yr erys dadansoddi risg yn flaenoriaeth allweddol;
- datblygiad pellach y prosiect cudd-wybodaeth weithredol, gyda'r nod penodol o ymateb i'r trychineb diweddar yn Atherstone a dysgu'r gwersi a fydd yn parhau i godi ohono, a hefyd rhoi gwybodaeth risg fwy cyfredol a phenodol i staff, er y caiff datblygiad yn y maes hwn ei lesteirio gan ddiffyg datrysiad data symudol;
- y gwaith parhaus o ddatblygu'r polisi amgylchiadau risg drwy fodelu adnoddau o ran risg; awgryma tystiolaeth fod tanau gwyllt yn rhoi straen sylweddol ar adnoddau presennol y Gwasanaeth a gellid lleihau effeithiau digwyddiadau o'r fath drwy ddefnyddio Fforwm Lleol Cymru Gydnerth fel yn achos llifogydd;
- sicrhau bod polisïau gweithredol ar gael yn lleoliad y digwyddiad.

## Mae angen i'r Awdurdod ddatblygu a darparu cyfeiriad teithio clir i fynd i'r afael â'r heriau gweithredol, ariannol a sefydliadol y mae'n eu hwynebu

11. Amlygodd yr asesiad anweithredol nifer o feysydd o gynnydd:

- datblygiadau o ran cyfathrebu, yn cynnwys gwefan newydd, strategaeth gyfathrebu a thîm cyfathrebu corfforaethol newydd, y mae ei waith ymgysylltu â'r cyhoedd wedi arwain at nifer fawr o geisiadau am archwiliadau diogelwch tân yn y cartref;

[1] Fire Statistic Monitors (2006 – Dros Dro), yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.


- nifer o enghreifftiau cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth a oedd yn cynnwys gwaith ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru a arweiniodd waith caffael strategol ar ran yr Awdurdod, prosiect yr ystafell reoli ar y cyd, yr uned cyfleusterau ar y cyd a Fforwm Lleol Cymru Gydnerth; mae'r protocolau rhannu data y cytunwyd arnynt yn ddiweddar ag awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn gam mawr ymlaen ac arfer da posibl o fewn y sector, ac mae'r Awdurdod yn cyfrannu at Fyrddau Gwasanaethau Lleol yng Ngogledd Cymru;
- ymgysylltu â'r cyhoedd lle mae nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi cynyddu o 14,000 i 26,000 rhwng 2006/2007 a 2007/2008;
- mae'r Awdurdod yn ceisio ennill Breinlen Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a bydd angen iddo fynd i'r afael â'r argymhellion a'r enghreifftiau o arfer da a fydd yn codi o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y mater hwn;
- bu newidiadau yn y trefniadau rheoli, yn cynnwys rota strategol a strwythur rheoli newydd sy'n ceisio gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau rheoli sydd ar gael;
- mae'r Awdurdod yn poblogi system rheoli perfformiad Ffynnon;
- mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyfarnu'r wobr Iechyd Galwedigaethol Aur i'r Awdurdod, ac mae'r Awdurdod yn gweithio tuag at achrediad y Ddraig Werdd.

12. Amlygodd yr asesiad anweithredol rai risgiau sylweddol y bydd angen mynd i'r afael â hwy i ategu'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd yn yr asesiad gweithredol. Mae'r heriau allweddol yn ymwneud â chytuno ar y weledigaeth strategol ac yna wireddu'r weledigaeth honno. Er bod gan yr Awdurdod blaenorol strategaeth glir i fynd i'r afael â'r gyfradd uchel o farwolaethau oherwydd damweiniau tân, a nodwyd yn y Cynllun Lleihau Risg a'r Cynllun Gwella, ceid problemau o ran cytuno i gyflawni'r camau gweithredu a awgrymwyd gan y dogfennau hynny. Ar ôl y cyfnod ymgynghori ar gyfer Cynllun Lleihau Risg 2008/2009, nid oedd yr Awdurdod Tân yn gallu cefnogi pob un o'r pedwar argymhelliad. Yn benodol, ni chytunodd aelodau'r Awdurdod Tân â dau newid allweddol a gynigwyd gan y Gwasanaeth, sef newidiadau i drefniadau o ran cyfnodau dyletswydd ac 'opsiwn ymateb penodedig' arfaethedig a fyddai'n caniatáu i'r Gwasanaeth ariannu gwell gweithgarwch atal tân. Gall hyn effeithio ar allu'r Gwasanaeth i weithredu ei gynigion yn llawn i wella'r gwasanaethau a ddarperir a'r mentrau diogelwch cymunedol.

13. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r Awdurdod yn wynebu pwysau o ran y sefyllfa ariannol lle gallai'r setliad ariannol heriol, a'r angen i flaenoriaethu'r defnydd o adnoddau i ddarparu gwell gweithgarwch ataliol sy'n gyson â'r Cynllun Lleihau Risg, beryglu'r broses o gyflawni amcanion strategol yr Awdurdod. Mae nodi dulliau o ymrwymo ac ailddyrannu adnoddau i flaenoriaethau strategol allweddol i gefnogi gwell gweithgarwch ataliol a diogelwch tân i leihau nifer y marwolaethau oherwydd damweiniau tân yn debygol o fod yn un o'r materion pwysicaf ar gyfer yr Awdurdod newydd, yn enwedig yng nghyd-destun amgylchedd ariannol heriol iawn.

14. Ceir risgiau uchel neu ganolig o hyd o ran rheoli perfformiad, agweddau cyfrifiadurol ar y Gwasanaeth Tân ac Achub, cydraddoldebau a chynaliadwyedd, er i'r Awdurdod gymryd camau gweithredu ym mhob un o'r tri maes i fynd i'r afael â'r risgiau. Mae Arddangosyn 2 yn nodi'r cysylltiadau rhwng rhai o'r risgiau anweithredol allweddol a nodwyd yn yr Asesiad Risg ar y Cyd, a ddisgrifir yn fanylach yn Arddangosyn 3.

**Arddangosyn 2: Ceir cysylltiadau rhwng rhai o'r risgiau anweithredol allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod**




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.*

**Arddangosyn 3: prif risgiau o'r asesiad di-weithredol**

| Agwedd | Digrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau lleihau risg | Lefel y risg gynhenid/ risg weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth strategol | Arweiniad strategol cryf gan uwch swyddogion a'r Awdurdod Tân ac Achub sydd wedi'i gyfleu'n dda i staff. Mae Cynllun Lleihau Risg ar waith ac ar gael ar y wefan, fel y mae'r Cynllun Gwella. Ymgynghorwyd yn eang ar y Cynllun Lleihau Risg ac mae'r ddogfen derfynol yn nodi meysydd clir i'w gwella ym mhob adran allweddol. Mae'r Cynllun Gwella a'r Cynllun Lleihau Risg yn gysylltiedig â'r un weledigaeth ac amcanion. Mae'r Cynllun Gwella yn nodi manylion perfformiad o ran targedau o gymharu â Chymru gyfan a'i grŵp teulu ei hun. | Methiant posibl i gynnal gwelediga eth glir | Cwblhawyd cyfnod ymgynghori 2008-2009 y Cynllun Lleihau Risg, fodd bynnag nid oedd yr Awdurdod Tân yn gallu cefnogi pob un o'r pedwar argymhelliad. Yn benodol ni chytunodd aelodau'r Awdurdod Tân â dau newid allweddol a gynigwyd gan y Gwasanaeth, sef newidiadau i drefniadau o ran cyfnodau dyletswydd ac 'opsiwn ymateb penodedig' arfaethedig a fyddai'n caniatáu i'r Gwasanaeth ariannu gwell trefniadau atal tân yn weithredol. | Uchel |

| Agwedd | Digrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau lleihau risg | Lefel y risg gynhenid/ risg weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau i wireddu'r weledigaeth | Mae arweinyddiaeth gref ar waith i ymgorffori gweithgareddau atal tân. Mae Rheolwyr Diogelwch Cymunedol yn arwain y Gwasanaeth Tân ym mhob Ardal Sirol gyda chysylltiadau cryf â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a blaenoriaethau diogelwch tân lleol. Mae uwch reolwyr yn hyrwyddo'r strwythur reoli a fabwysiadwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ac maent yn cynnal y dull hwn drwy gyfathrebu â staff ac ymweliadau â gorsafoedd gan uwch swyddogion a raglennir yn gorfforaethol. Nododd Tîm PAT y canlynol: Mae'r Gwasanaeth, a'i Reolwyr Sirol, yn gweithio'n frwdfrydig gyda sefydliadau partner ledled Gogledd Cymru er mwyn lleihau risg. Gellid gwella'r gwaith hwn drwy ddatblygu polisi ar gyfer y gwasanaeth cyfan i sicrhau dull cyson o reoli'r lefelau amrywiol o risg gymunedol ledled ardal y Gwasanaeth. | Cynlluniau i wireddu gweledigaeth a blaenoriaethau strategol | Mae Uwch Reolwyr yn monitro ac adolygu strwythurau presennol yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu heriau allanol ac arfer da a chamau gweithredu allweddol o adolygiadau cymheiriaid a Thasglu'r Prif Swyddog Tân sy'n cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Prif Swyddog Tân. Gall amharodrwydd yr Awdurdod Tân i gefnogi cynigion allweddol o fewn Cynllun Lleihau Risg 2008-2009 effeithio ar allu'r Gwasanaeth i weithredu ei gynigion yn llawn i wella'r gwasanaethau a ddarperir a'r mentrau diogelwch cymunedol. Gallai'r potensial ar gyfer ymddeoliadau ar raddfa fawr gan ddiffoddwyr tân a recriwtiwyd i'r gwasanaeth ar ddiwedd yr 1970au, a'r ffaith bod y cyfnod recriwtio a hyfforddi yn hwy na'u cyfnod rhybudd, effeithio'n andwyol ar allu'r gweithlu i gyflawni'r weledigaeth a chynnal gwasanaethau i'r cyhoedd. | Uchel |

| Agwedd | Digrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau lleihau risg | Lefel y risg gynhenid/ risg weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu a chraffu Aelodau | Mae strwythurau Aelodaeth clir ar waith o fewn yr Awdurdod Tân a chynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod Tân a'i is-bwyllgorau ledled ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae aelodau wedi cytuno ar gylch gorchwyl y Panel Gweithredol ac mae Rheolau Sefydlog ar waith ar gyfer yr Awdurdod Tân sy'n ymdrin â rolau aelodau ar Gyngor Sir Conwy, fodd bynnag mae'r rhain yn cael eu diweddaru gan y Cyngor yn ystod 2007/2008. Ni chododd y Llythyr Archwilio Blynyddol diweddaraf unrhyw bryderon penodol o ran strwythurau llywodraethu a rheoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub. | Methiant i gyflawni newidiadau i strwythurau pan fo angen a darparu gwasanaethau rheoli corfforaethol a chymorth effeithiol | Caiff siarter Aelodau ei mabwysiadu a fydd yn cynnwys hyfforddiant sefydlu ar gyfer aelodau newydd ynghyd â sesiynau hyfforddiant byr ar rôl a chyfrifoldebau aelodau'r Awdurdod Tân i sicrhau lefel dda o ddealltwriaeth gan Aelodau o'u rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain. Mae'r Awdurdod Tân wedi mabwysiadu cyfres o weithgorau Aelodau yn cynnwys Grŵp Hyrwyddwyr sydd wedi cynnig y dylai'r Awdurdod Tân fynd ati i fabwysiadu Siarter yr Aelodau ac wedi cadarnhau'r gwaith sydd ei angen i gyflawni lefel sylfaenol y Siarter hon. | Canolig |
| Sefyllfa ariannol | Mae gan yr Awdurdod hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb ac mae ei sefyllfa ariannol gyffredinol yn gadarn. Fodd bynnag, roedd y gwariant gwirioneddol yn 2006/2007 £121,000 yn fwy na'r gyllideb a gymeradwywyd. Ariannwyd y gorwariant drwy ryddhau arian o ddarpariaethau penodol. Mae'r adroddiad monitro cyllideb diweddaraf yn rhagweld y bydd gwariant ar gyfer 2007/2008 yn unol â'r gyllideb. | Methiant posibl i sicrhau trefniadau rheoli ariannol cadarn | Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol o'i bwysau ariannol a'r angen i gynnal sefyllfa ariannol effeithiol i sicrhau y darperir y Gwasanaeth. Cyflwynwyd cyfarfodydd rheoli cyllideb/perfformiad mewnol rheolaidd gyda phenaethiaid adrannau i wella trefniadau rheoli ariannol. | Uchel/ Canolig |

| Agwedd | Digrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau lleihau risg | Lefel y risg gynhenid/ risg weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli perfformiad | Sefydlwyd System Rheoli Perfformiad, a chesglir data Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ac adroddir arno, ond nid yw'n gysylltiedig â data Trefniadau Argyfwng y Gwasanaeth Tân. Nododd y Llythyr Archwilio Blynyddol fod angen atgyfnerthu'r system Rheoli Perfformiad, a chasgliad yr adroddiad diwethaf ar y Fframwaith Rheoli Perfformiad oedd 'er bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd ac mae fframwaith rheoli perfformiad ar waith, mae angen ei atgyfnerthu. Mae'r Awdurdod wedi cydnabod yr hyn sydd angen ei wneud, ond mae angen digon o adnoddau i sicrhau y gellir gweithredu'r cynlluniau yn llawn'. | Methiant posibl i gyflawni amcanion o ran y Cynllun Lleihau Risg oherwydd diffyg fframwaith rheoli perfformiad cadarn | Bydd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn mabwysiadu meddalwedd Ffynnon ac mae'r gwaith o hyfforddi staff a phoblogi data yn mynd rhagddo. | Uchel/ Canolig |
| Agweddau Cyfrifiadurol ar y Gwasanaeth Tân ac Achub | Mae angen mynd i'r afael â datblygu systemau TG er mwyn gwella effeithiolrwydd o ran dull y Gwasanaeth Tân ac Achub. Dywedodd y Gwasanaeth Tân ac Achub wrthym ei fod wedi datrys problemau hanesyddol o ran trwyddedau meddalwedd. Penodwyd rheolwr TGCh newydd ac mae'n cynnal gwaith dilynol ar ganfyddiadau adolygiad mawr o wasanaethau TGCh. | Methiant posibl i gynnal systemau TG effeithiol | Rhaglennwyd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru i gadarnhau a oes trefniadau effeithiol ar waith i reoli'r risg TG. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod problemau o hyd gyda seilweithiau o bell. Mae'n buddsoddi dros y 3 blynedd nesaf i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn. | Uchel/ Canolig |

| Agwedd | Digrifiad | Effaith bosibl | Mesurau/rheolaethau lleihau risg | Lefel y risg gynhenid/ risg weddilliol |
|---|---|---|---|---|
| Cynaliadwyedd | Mae pob adeilad yn cael ei asesu yn erbyn y ddeddfwriaeth amgylcheddol bresennol. Mae'r Cynllun Lleihau Risg yn amlygu'r effaith amgylcheddol. | Methiant i sicrhau bod cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori'n llawn | Mae'r Gwasanaeth wedi cydnabod lefel y risg i gyflawni oherwydd adnoddau a chyllidebau. Mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu uned gyfleusterau ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru ac wedi sefydlu gweithdrefnau ailgylchu ym mhob gorsaf, cynnal asesiad o'r prif adeiladau ac yn gwneud cynnydd tuag at lefel gyntaf 'y ddraig werdd' | Uchel |
| Cydraddoldebau | Mae cydraddoldebau yn rhan o'r Cynllun Rheoli Asedau gydag amrywiaeth a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn rhan o'r dull sgorio. Mae amrywiaeth hefyd wedi'i ymgorffori mewn rhaglen hyfforddi sylfaenol. Lluniwyd canllawiau Asesu'r Effaith Cydraddoldebau ac ymgynghorwyd arnynt gan y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac maent bellach wedi'u mabwysiadu. | Methiant i fodloni gofynion deddfwriaethol | Mae arfarniadau staff bellach yn cynnwys asesiad o gydraddoldebau ac yn rhan o gynlluniau Gwasanaeth y Sir | Uchel |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Templed Asesiad Risg..*

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 20320500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn : 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk